# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Hylendid Bwyd Cyffredinol (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **4 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Hylendid Bwyd Cyffredinol (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar hylendid bwydydd ("Rheoliad Hylendid Cyffredinol")
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 579/2014 yn rhanddirymu rhai darpariaethau yn Atodiad II Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd o ran cludo olewau a brasterau hylifol dros y môr
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwyd
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 2017/2158 yn sefydlu mesurau lliniaru a lefelau meincnodi ar gyfer lleihau presenoldeb acrylamid mewn bwyd

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo pwerau deddfwriaethol presennol y Comisiwn Ewropeaidd o dan y Rheoliad Hylendid Cyffredinol i Weinidogion Cymru yn ymwneud â Chymru. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau, yn amodol ar ddirymiad drwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol, i ddiwygio Atodiadau 1 a 2 y Rheoliad Hylendid Cyffredinol a ddargedwir, sy'n cynnwys darpariaethau hylendid ar gyfer cynhyrchwyr bwyd cynradd a'r egwyddorion ar gyfer rheoli hylendid mewn busnesau bwyd ar wahân i gynhyrchu cynradd. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Diben y diwygiadau**
Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion yn deillio o'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yng nghyfraith yr UE a ddargedwir yn uniongyrchol yn ymwneud â'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer cynnyrch bwyd yn hylan a'r rheolaethau effeithiol a chymesur y mae'n rhaid eu cymhwyso. Bydd y Rheoliadau hefyd yn gwneud mân gywiriadau technegol i dri Rheoliad UE arall ar hylendid bwyd (Rheoliadau UE 579/2014, 2073/2005, 2017/2158).

Mae'r cywiriadau i'r Rheoliad Hylendid Cyffredinol yn cynnwys cywiriadau technegol i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ôl ymadael â'r UE. Bydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn parhau i fod y gonglfaen ddeddfwriaethol ar gyfer hylendid bwyd yn y DU ar ôl ymadael â'r UE i sicrhau diogelwch bwyd o fewn y gadwyn fwyd drwyddi draw, gan gychwyn gyda chynhyrchu cynradd.

Mae'r cywiriadau technegol hyn yn cynnwys diwygio darpariaeth sy'n ei gwneud hi'n ofynnol ar hyn o bryd i gynwysyddion/tanceri sy'n cario bwyd penodol gael eu marcio mewn un iaith Gymunedol neu fwy i ddangos eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer cludo bwydydd, neu gael eu marcio "ar gyfer bwydydd yn unig". Bydd y Rheoliadau'n diwygio'r ddarpariaeth i nodi y dylid marcio'r cynwysyddion/tanceri gyda "ar gyfer bwydydd yn unig" yn Saesneg, neu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ni fydd y Rheoliadau'n gwneud unrhyw newid sylweddol i lefelau diogelu iechyd pobl (neu anifeiliaid), neu i safon uchel y bwyd a bwyd anifeiliaid y mae defnyddwyr yn ei disgwyl gan gynhyrchion a gynhyrchir yn ddomestig a chynhyrchion a fewnforir.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/qJO2B1F5

**Pam rhoddwyd caniatâd**
Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.